

Ffonau rholyn papur toiled

Beth am roi cynnig ar wneud ffôn hen ffasiwn yn y prosiect crefft hawdd hwn? Yn hytrach nag ailgylchu, gwnewch ddefnydd da o'ch tiwbiau papur toiled.

Byddwch angen:

- Tiwbiau papur toiled gwag (un fesul ffôn)
- Darnau ychwanegol o gardfwrdd
- Llinyn
- Glud crefft
- Paent/pinau lliw (dewisol)
- Siswrn

DYSGU DRWY CHWARAE - Ffonau rholyn papur toiled

Dull:

- Torrwch gylch o ddarn o gardfwrdd i wneud y deial
- Tynnwch lun 10 cylch ar y deial a'u rhifo nhw o rif 0 i 9
- Defnyddiwch y glud, glynwch y deial i'r tiwb rholyn papur toiled
- Defnyddiwch y siswrn i dorri tameidiau ar dop y tiwb. Dyma ble bydd y ffôn yn gorwedd
- Torrwch y ffôn allan o ddarn o gardfwrdd
- Gwnewch dwll yng ngwaelod y tiwb rholyn toiled a thwll yn y ffôn
- Rhowch un pen o'r llinyn drwy'r ffôn a'i glymu
- Gwthiwch y pen arall drwy'r twll yn y tiwb rholyn toiled a'i glymu
- Gall eich plentyn baentio/liliwio'r ffôn
- Mae eich ffôn wedi ei gorffen ac yn barod i chwarae gyda hi.... Helo! Helo! Pwy sy'n galw plis?

Pam ddim?

- Beth am chwilio am fwy o weithgareddau plant sy'n defnyddio tiwbiau papur tŷ bach ar-lein?

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn annog eich plentyn i gymryd rhan mewn sgwrs ac i wrando'n ofalus
- Bydd hefyd yn addysgu eich plentyn am bwysigrwydd cymryd tro



RHYBUDD:

Mae angen goruchwyliaeth fanwl wrth chwarae gyda llinyn!